



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Pont Y Gof
Botwnnog
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8RA**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Pont y Gof ym mhentref Botwnnog ym mhen Llŷn, Gwynedd ac mae o dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Sarn Mellteyrn, Llaniestyn a Garn Fadryn.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 86% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin, yn amser llawn ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 117 ar gofrestr yr ysgol.

Mae oddeutu 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 32% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na chanrannau Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth newydd dderbyn secondiad i weithio i dîm her consortiwm rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'r dirprwy wedi ei phenodi i fod â gofal am yr ysgol yn ei absenoldeb. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pont y Gof yn 2015-2016 yn £3,429. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Pont y Gof yn safle 88 allan o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda
- safon medrau allweddol y disgyblion yn dda a bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion yn uchel
- bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol ac addysgu dychmygus ac effeithiol yn cymhell bron pob un o'r disgyblion i ddysgu ac i ymfalchïo yn eu gwaith
- ethos teuluol, gofalgarg a chroesawgar iawn yn bodoli lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar hybu safonau uchel
- y weledigaeth wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr
- aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol, yn herio'n synhwyrol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol am ei perfformiad
- gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr a chadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynlluniau clir ar gyfer gwella
- cydweithio effeithiol iawn yn bodoli gydag ystod o bartneriaethau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

Argymhellion

- A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm
- A2 Rhoi mwy o ryddid i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros agweddau o'u dysgu eu hunain

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod eu cyflawniad yn amrywio'n naturiol yn unol â'u gallu. Mae bron pob un yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae bron pob disgybl wedi gwneud cynnydd da ym mhob maes dysgu.

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a'u gallu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau siarad a gwrando da ac maent yn dangos lefelau uchel o hyder wrth ddefnyddio'r medrau hyn. Defnyddiant y Gymraeg yn hyderus wrth drafod eu profiadau a'u diddordebau gan ddefnyddio geirfa eang.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd diddorol. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n hyderus i drafodaethau gan ddefnyddio geirfa amrywiol sy'n berthnasol i'r testun. Wrth ddwyn i gof dysgu blaenorol, mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod prif gymeriadau a digwyddiadau o'r nofel Kenzuke's Kingdom yn wybodus iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn hyderus ddwyieithog.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru darllen yn rhugl ac ystyrion ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf drafod cynnwys testun yn ystyrion gan gyfeirio'n hyderus at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod cynnwys y testun a chymeriadau mewn modd aeddfed. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn hyderus, er enghraifft ffeithiau am y gofod.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gwaith ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn cyfleu ystyr amlwg gan ddefnyddio geirfa briodol a diddorol. Mae llawer erbyn hyn yn defnyddio priflythren ar ddechrau brawddeg ac atalnod llawn ar ei diwedd yn gyson. Mae eu syniadau'n datblygu mewn dilyniant o frawddegau. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft i ysgrifennu llythyr i Siôn Corn. Mae sillafu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwaith ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir. Gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o brif nodweddion gwahanol ffurfiau ar ysgrifennu, gan ddechrau eu haddasu'n addas ar gyfer darllenwyr gwahanol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Saesneg yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae sillafu geiriau cyfarwydd gan lawer o'r disgyblion yn gywir gan amlaf. Mae llawysgrifen bron pob disgybl yn ddarllenadwy gyda'r gwaith wedi ei gyflwyno'n daclus.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol afael gadarn ar fedrau rhifedd ac maent yn llwyddo i'w defnyddio'n effeithiol i ddatrys problemau. Maent yn hyderus yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a llusosi wrth ddatrys problemau geiriol a phroblemau rhesymu rhif. Mae bron pob un yn defnyddio offer ac unedau mesur safonol yn gywir yn eu tasgau, er enghraifft wrth fesur tymheredd ac amser mewn ymchwiliad gwyddonol. Maent yn casglu ac yn dehongli data gan egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n hynod effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus iawn ar draws y cwricwlwm.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio ac wedi gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn medrau iaith. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi bod yn gyson naill ai yn y 50% is neu 25% isaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn medrau iaith a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwylidig (lefel 4) mewn Cymraeg wedi bod yn y 25% uchaf mewn tair allan o'r pedair blynedd. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf yr 50% is neu'r 25% isaf. Ar y lefel uwch (lefel 5), mae perfformiad eto wedi amrywio ym mhob pwnc rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac nid oes unrhyw wahaniaeth amlwg rhyngddynt a disgyblion eraill. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau am ddim yn gwneud cystal ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2.

Lles: Rhagorol

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan aelodau'r staff. Maent yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth ardderchog o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o gadw'n heini.

Mae safon ymddygiad yn uchel iawn ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd o oed ifanc. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol mewn modd hyderus a chydwybodol, er enghraifft gofalu am y plant ieuengaf ar y buarth. Mae agwedd rhan fwyaf y disgyblion tuag at ddysgu yn rhagorol. Mae eu diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad yn amlwg iawn ym mhob gweithgaredd.

Mae gallu'r disgyblion i wella'u dysgu eu hunain yn agwedd gref iawn o waith ym mhob dosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn iawn o ba mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o fywyd yr ysgol. Enghraifft arbennig o hyn yw eu rôl yn y broses o adolygu'n flynyddol y polisi gwrth fwlio a disgyblaeth mewn partneriaeth â'r pennaeth a'r corff llywodraethol.

Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn arwain mentrau masnachol yn ardderchog. Maent yn tyfu cynnyrch eu hunain, yn gwneud jam a siytni i'w werthu ac yn defnyddio'r arian i gefnogi plentyn yn Mozambique. Mae'r prosiectau hyn yn datblygu medrau bywyd a chymdeithasol y disgyblion mewn modd llwyddiannus iawn. Trwy gymryd rhan frwdfrydig mewn sawl gweithgaredd cymunedol, mae'r disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod naill ai yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf dros y tair blynedd ddiwethaf, o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol i'w disgyblion, sy'n bodloni holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae athrawon wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus i'r cynllunio gan ddarparu cyfleoedd cyson i atgyfnerthu'r medrau hyn a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Cyfoethogir y profiadau dysgu a ddarperir yn effeithiol drwy ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion. Mae hyn yn arbennig o effeithiol fel sbardun ar gychwyn unedau o waith. Trwy gynllunio manwl, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i adeiladu'n bwrpasol ar eu dysgu blaenorol.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer astudio hanes lleol a hanes Cymru. Mae'r profiadau hyn yn ganolog i holl waith yr ysgol, yn ehangu dealltwriaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth, ac yn gymorth effeithiol iddynt ddeall eu rôl o fewn y gymuned.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau cyfoethog sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cynaliadwyedd. Mae'n darparu profiadau cyfoethog i godi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang trwy weithgareddau elusennol fel noddî bachgen ym Mozambique. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu trafod yn wybodus y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng bod yn blentyn yng Nghymru â phlentyn yn yr Affrig.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel gyda'r athrawon yn dangos gwybodaeth gadarn am ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn ac yn ymateb yn briodol. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog gyda chyflymder da sy'n sbarduno disgyblion i weithio'n gydwybodol.

Mae athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion, ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y gwersi. Fodd bynnag, mae tueddiad gan athrawon i or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd gan ddisgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros agweddau o'u dysgu.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar iawn i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn rhannu'r amcanion dysgu yn glir gyda'r disgyblion, ac yn trafod meini prawf llwyddiant yn gyson gyda nhw yn ystod y gwersi. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol, gyda phob aelod staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn. Mae perthynas waith arbennig o effeithiol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion, sy'n meithrin dysgu llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd medrus o ystod briodol o strategaethau asesu er mwyn darparu tasgau sy'n addas ar gyfer anghenion pob disgybl. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi, ac yn ysgrifennu sylwadau adeiladol ar waith ysgrifenedig y disgyblion. Mae rhoi cyfleoedd cyson i'r disgyblion ymateb i'r sylwadau hyn yn eu galluogi i wella'u gwaith yn llwyddiannus. Yn yr un modd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn gynnar iawn, pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ac effeithiol iawn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd effeithiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Maent wedi datblygu ffeil wybodaeth gynhwysfawr ar gyfer pob disgybl sy'n rhoi darlun clir o'u cyrhaeddiad ynghyd â'r camau nesaf ar eu cyfer. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol i osod tasgau priodol er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd da y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae ystod eang o glybiau ar ôl ysgol yn atgyfnerthu hyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy

weithgareddau'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae disgyblion o bob oed yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw cynnal bore coffi yn yr ysgol i hybu Masnach Deg. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn darparu cymorth yn briodol, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol. Mae'r staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni pan gânt eu hadolygu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn â nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgwr iawn lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm eang i'r holl ddisgyblion. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd fel Affrica.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio'n hynod o effeithiol. Mae'r manau dysgu allanol wedi eu datblygu'n briodol er mwyn gwneud defnydd pwrpasol o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd ardderchog o'r ardd i dyfu llysiau fel rhan o'u prosiect mentergarwch.

Mae arddangosfeydd symbylus a deniadol o waith athrawon a chyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol, gan gefnogi'r dysgu yn effeithiol. Maent hefyd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Caiff ei gefnogi yn hynod o effeithiol gan y dirprwy bennaeth. Ar y cyd, maent yn llwyddo i hyrwyddo disgwyliadau uchel iawn ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob

agwedd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a chadarnhaol iawn ar gyrhaeddiad a lles y disgyblion, ac yn sicrhau ethos cartrefol a chymuned drefnus. Mae hyn yn nodwedd ragorol o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n arbennig o effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Maent yn barod iawn i rannu eu harbenigeddau er lles y disgyblion. Mae hyn yn nodwedd amlwg ac effeithiol iawn, sy'n creu sylfaen gref wrth ymdrin â chodi safonau a darparu cwricwlwm eang ar draws yr ysgol.

Mae strwythurau penodol i gyfarfodydd staff a llywodraethwyr sy'n sicrhau cyfleoedd i drafod materion allweddol yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar safonau a lles y disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd effeithiol iawn i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol a phenodol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae disgywiliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac mae argymhellion y Siarter Iaith yn cael sylw amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ardderchog o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r cynllun monitro yn galluogi'r llywodraethwyr i arsylwi ar yr addysgu a chraffu ar waith y disgyblion yn hynod effeithiol. Mae wedi sicrhau ymrwymiad y llywodraethwr yn y broses arfarnu wrth iddynt ddod i farn gadarn ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r ysgol wedi paratoi llyfryn hynod o ddefnyddiol sy'n rhestru enghreifftiau o gwestiynau heriol i'r llywodraethwyr ofyn i'r pennaeth. Mae'r cwestiynau yn eu paratoi'n dda iawn i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Mae hyn yn eu galluogi i gynnig cyfeiriad strategol cadarn iawn i'r ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r weithdrefn hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn datblygu dealltwriaeth holl aelodau'r staff o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl, wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion, llywodraethwyr a rhieni.

Mae cyswllt clir yn bodoli rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae'n cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant heriol o fewn terfynau amser penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol hanes cryf o roi gwelliannau ar waith. Er enghraifft, mae'r camau a gymerwyd ers yr arolygiad diwethaf wedi arwain at welliannau amlwg i'r ardal allanol, ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n effeithiol.

Ceir cydweithio a chynllunio eithriadol o lwyddiannus rhwng yr ysgol a phedair ysgol arall o fewn y bartneriaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o gyd-gynllunio ac wedi datblygu system olrhain cynnydd effeithiol iawn. Mae wedi datblygu ffeil wybodaeth gynhwysfawr ar gyfer pob disgybl ac fe geir darlun cywir o'u cyrhaeddiad a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud i'r cam nesaf. Mae hyn wedi arwain at godi safonau, yn enwedig wrth sicrhau profiadau dysgu dychmygus ac ysgogol sy'n hyrwyddo cyfraniad y disgyblion tuag at ddealltwriaeth gadarn o'r meini prawf llwyddiant a osodir ar gyfer pob gwers. Maent hefyd yn rhannu profiadau o ran datblygu staff a chymorthyddion, rhannu syniadau a dulliau cyflwyno amrywiol bynciau. Mae hyn wedi cael dylanwad cryf ar safon yr addysgu ac ar godi safonau.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni a gofalwyr. Maent yn cefnogi'r ysgol yn ymarferol ac yn ariannol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant amlwg yn yr ardal allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli gyda'r cylchoedd meithrin sy'n bwydo'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn wrth gychwyn. Ceir cydweithio effeithiol gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol i gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r safonau a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae rhaglenni pontio effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd gyfagos i sicrhau trosglwyddo esmwyth a didrafferth.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r gymuned, busnesau lleol, a mudiadau cenedlaethol i wella profiadau dysgu'r disgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd ac mae'r ymdeimlad o dîm addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi ei threfnu'n dda a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u hamser.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r nifer o rwydweithiau dysgu o fewn yr ysgol a thu hwnt yn cynnig ystod eang o gyfleoedd priodol i athrawon a chymorthyddion gydweithio ar gynllunio rhaglenni gwaith diddorol ac ysgogol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach a sicrhau bod y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn pryddau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda ar y lefelau disgwylidig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau dysgu ac addysgu'n dda ac mae'r adeilad a'r tir yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

O ystyried y deilliannau da a'r defnydd darbodus o'r cyllid, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6613004 - YSGOL PONT Y GOF

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	122
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	7.7
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	18	14	10	18
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	94.4	85.7	80.0	88.9
Chwarter meincnod	2	3	4	3
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	18	14	10	18
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	94.4	85.7	100.0	88.9
Chwarter meincnod	2	3	1	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	27.8	64.3	40.0	44.4
Chwarter meincnod	3	1	2	2
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	18	14	10	18
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	94.4	85.7	90.0	94.4
Chwarter meincnod	3	4	3	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	22.2	64.3	40.0	44.4
Chwarter meincnod	3	1	2	2
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	18	14	10	18
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	100.0	100.0	90.0	94.4
Chwarter meincnod	1	1	4	4
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	55.6	100.0	80.0	72.2
Chwarter meincnod	2	1	2	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deiliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6613004 - YSGOL PONT Y GOF

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 122
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 7.7
 Grŵp PYD 1 (PYD<=8%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	14	5	14	18
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	92.9	100.0	92.9	94.4
Chwarterl meincnod	2	1	3	3
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	5	14	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	78.6	100.0	100.0	94.4
Chwarterl meincnod	4	1	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	35.7	72.2
Chwarterl meincnod	*	*	3	1
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	5	14	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	100.0	94.4
Chwarterl meincnod	1	1	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	100.0	42.9	44.4
Chwarterl meincnod	*	1	2	2
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	5	14	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.9	100.0	92.9	100.0
Chwarterl meincnod	3	1	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	35.7	55.6
Chwarterl meincnod	*	*	3	2
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	14	5	14	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.9	100.0	100.0	100.0
Chwarterl meincnod	3	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	100.0	35.7	77.8
Chwarterl meincnod	*	1	3	1

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	62	62 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	62	61 98%	1 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	62	62 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	62	62 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	62	62 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	62	62 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	62	62 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	62	62 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	62	62 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	62	62 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	62	61 98%	1 2%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	62	62 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	28	24 86%	4 14%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		64%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	28	26 93%	2 7%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	28	23 82%	5 18%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		73%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	28	21 75%	7 25%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	26	19 73%	7 27%	0 0%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	28	22 79%	6 21%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	28	26 93%	2 7%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	27	23 85%	4 15%	0 0%	0 0%	1	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	27	26 96%	1 4%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		61%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	28	24 86%	4 14%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		61%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	26	23 88%	2 8%	1 4%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	27	23 85%	4 15%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	28	22 79%	6 21%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		50%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	28	21 75%	7 25%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		63%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	28	20 71%	8 29%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	28	20 71%	8 29%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	25	18 72%	7 28%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		53%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	27	19 70%	8 30%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	38%	5%	1%		
The school is well run.	28	23 82%	5 18%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Rosemarie Wallace	Arolygydd Tîm
David Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Derfel Mon Griffiths	Arolygydd Cymheiriaid
Euros Davies	Enwebai

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.